CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Clerc / Clerk: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru
https://cyngorplwyf.wixsite.com/llandrillo

Annwyl Gynghorydd,

Cynhelir **Cyfarfod Cyngor Cymuned Llandrillo**, Nos Wener, Medi 6ed 2019 am 7.30 y.h. yn y Ganolfan.

Agenda:

1. Croeso
2. Ymddiheuriadau
3. Cofnodion cyfarfod Mehefin 7fed 2019
4. Materion yn codi o cofnodion mis Mehefin
5. Gohebiaeth
6. Materion Cynllunio
7. Materion Ariannol
8. GDPR
9. Materion o'r Gymuned

Oherwydd prinder nifer o Cynghorwyr yn bresennol, fe ohiriwyd cyfarfod 5ed o Orffennaf tan y 12fed o Orffennaf

Cofnodion cyfarfod Nos Lun, 12fed Gorffennaf, 2019 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Mrs. Eira Lewis (C), Mrs Becky Mollinson-White, Mrs. Anne Williams, Mr. Huw Lloyd, Mr David Williams, Mr Geraint Jones, Mr John W Jones a Mr Brinley Owen.

Cynghorydd Sir – ddim yn bresennol

Cyhoedd: Mr Delwyn Lewis

Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Mrs Rhiannon Jones

3. **COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 7ed, 2019**
   Fe'i cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

- **Enw ychwanegol i'r Cofeb –** wedi trafodaeth a adroddiadau o'r ymchwiliadau, penderfynwyd yn unfrydol i beidio ychwanegu enw i'r cofeb. Penderfynwyd i gadw at ofynion gwreiddiol y British Legion i beidio cynnwys enwau milwyr a fu farw yn dilyn 31 Rhagfyr 1947. Y clerc i ymateb i'r cais ar ran y Cyngor Cymuned.
- **Capel Hananeel –** Derbyniwyd e-bost gan Alwyn Parry yn cynnwys ymateb gan Cyngor Sir Ddinbych i'w gais i ofyn am arian i'r capel, yn cadarnhau na fedrwn gyfrannu at adeiladau crefyddol
- **Arwyddion cyflymder** – wedi cael cadarnhad gan Westcotec nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer yr arwyddion. Cafwyd gwybodaeth y bod aelod o'r gymuned yn edrych i mewn i'r trafnidiaeth ochr Ogleddol o'r pentref, yn dilyn lorïau trwm yn bachu ochr tŷ ac yn gyrru ar hyd y B4401.

5. **GOHEBIAETH**
   - **Sir Ddinbych – Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ddinbych** – derbyniwyd Adroddiad Argymhellion Terfynol (Mehefin 2019) yn nodi cynnig cyfuno ardalopedd Llandrillo/Cynwyd a Corwen i ffurfio ward etholiadol â dau aelod. Holi Mabon am fwy o wybodaeth.
   - **Sir Ddinbych – Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, Cadeirydd –** gwahoddiad i Gwasanaeth Dinesig ar 21/7/2019 – neb am fynychu.

6. **MATERION CYNLLUNIO**
   - **Dim Materion Cynllunio i'w trafod.**

7. **MATERION ARIANNOL**
   - Anfoneb gan S Williams am dorri cae chwarae - £120 (100112)
   - Anfoneb gan Bronwen Evans am y blodau i Bro Dinam - £176 (100113)
   - Llythyr gan HSBC yn nodi rhestr o ffioedd i ddefnyddio gwahanol wasanaethau gan y banc.

8. **GDPR – Dim Materion**

9. **MATERION O'R GYMUNED**
   - **Adolygu Asesiadau Risg – dim newidiadau i'r asesiadau risg presennol**
   - **Adolygu Prisiau Claddu ayyb yn y fynwent – Dim Newidiadau**.
   - **Rheoliadau Ariannol** – er y bod y rheoliadau ar gael wrth law, nid oedd munudau yn nodi eu mabwysiadu – felly cynghorwyr yn fodlon mabwysiadu y rheoliadau hyn, ac arwyddo'r ffurflen.
   - **Cae Chwarae** – cafwyd ddiweddariad gan Bryn a Chris am y Cae Chwarae. Mae'r offer chwaraeon dal yn cael eu cadw yn y garej yn yr ysgol. Bydd gweddill yr arian sydd wedi ei benodi i'r Cae Chwarae ar gyfer cynnal y ffiniau.
   - **Adeilad yr Hen Ysgol** – darllenwyd e-bost gan Tom Booty, (Swyddog Arweiniol – rheoli asedau Strategol yn Sir Ddinbych) yn egluro y termau o'r Cyngor Cymuned i gymryd y rheolaeth/cyfrifoldeb o redeg yr adeilad. Roedd cynnig o Trosglwyddiad Ased (Asset Transfer) – Prydles (lease) 25 mlynedd am £1 y flwyddyn. Petai'r fenter yn methu, byddai'r Sir yn fodlon cymryd yr adeilad yn ôl a'i werthu ar y farchnad agored. Cyn gwneud penderfyniad, gofynnodd y Cyngor am doriad o'r costau blynyddol o redeg yr ysgol, ac hefyd bydd angen cyngor cyfreithiol annibynnol cyn ymgymryd a'r prosiect, Mae aelodau o'r gymuned wedi cael caniatâd gan Sir Ddinbych i wneud gwaith cynnal a chadw o gwmpas yr adeilad. Gofynnwyd a yw yswiriant Sir Ddinbych yn ddilys iddynt fynd ar tir yr hen ysgol

- **Ffordd Dinam** – cyflwr y ffordd yn wael – clerc i gysylltu a Sir Ddinbych a hysbysu Mabon
- **Ffordd Pennant** – fer Tŷ Nant – y loriau cario coed wedi achosi i'r ffordd wanhau mewn mannau. Clerc i gysylltu a Sir Ddinbych a hysbysu Mabon
- **Ffordd ger Branas Lodge a trofa am Syrior** – dwr wedi erydu y ffordd, a nawr yn rhedeg o dan y tarmac. Clerc i gysylltu a Sir Ddinbych a hysbysu Mabon
- **Ysgol Bro Dyfrdwy** – mae pryder am y nifer o blant sydd yn mynychu'r ysgol, a'r problemau sy'n wynebu yr ysgol i greu lle i'r plant. Y clerc i yrru e-bost i'r Sir ynglŷn a pryder y rhieni a'r gymuned am safon a maint y dosbarthiadau yn yr ysgol. Clerc hefyd i hysbysu Mabon.
- **Swydd Clerc** – mae'r clerc wedi cael ymholiad am y swydd gan Andrew Morgan am y swydd, ond ni all gynnig neud y swydd yn ddwyieithog, ond yn Saesneg yn unig. Fe gynnigwyd gan Gaenor i gyfieithu y munudau misol i'r Gymraeg. Penderfynwyd i gynnig y swydd iddo, ac i gychwyn ym mis Medi.

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……